Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 56/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 18/05/2023

# Adolygiad o Raglen Addysg Amgylcheddol Eco-Sgolion yng Nghymru (2018-2022): Crynodeb Gweithredol

## 1. Amcanion a methodoleg yr ymchwil

1.1 Cafodd Miller Research, ar y cyd ag ymchwil OB3, eu comisiynu i gyflawni adolygiad o raglen Addysg Eco-Sgolion yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn ymwneud â'r cyfnod o fis Ebrill 2018 hyd at fis Ionawr 2022, i ddatlbygu tystiolaeth ar gyfer ystyried dewisiadau o ran ariannu'r rhaglen yn y dyfodol.

1.2 Eco-Sgolion yw'r rhaglen addysg amgylcheddol ryngwladol fwyaf yn y byd, sy'n gweithredu mewn 74 o wledydd gyda'r nod o rymuso ac ysbrydoli dysgwyr trwy astudio yn yr ystafell ddosbarth, a gweithredu yn yr ysgol a'r gymuned i godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol, yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy. Yng Nghymru, rheolir Eco-Sgolion gan Cadwch Gymru'n Daclus, sydd wedi bod yn rheoli'r rhaglen ers 1994 ac sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru i arwain y rhaglen ers 2011.

1.3 Amcanion allweddol yr adolygiad oedd deall sut y caiff Eco-Sgolion ei weithredu yng Ngymru, effaith y rhaglen ar ysgolion a dysgwyr, a sut mae'n cefnogi polisïau allweddol Llywodraeth Cymru. Roedd iddo'r nod hefyd o ddeall sut mae'r rhaglen yn rhoi cyfle i gynnwys plant a phobl ifanc yn rhai o'r polisïau penodol a flaenoriaethir gan Lywodraeth Cymru wrth iddynt ddatblygu i'r dyfodol.

1.4 Datblygwyd Theori Newid ar gyfer yr adolygiad sy'n seiliedig ar ddogfennaeth y prosiect a chyfweliadau cwmpasu, a adolygwyd gan Lywodraeth Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus. Roedd ail gam yr adolygiad yn cynnwys ymchwil uniongyrchol helaeth gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a lleoliadau ysgol, er mwyn deall sut mae'r rhaglen yn gweithio a beth yw'r buddion.

1.5 Cafodd deg o ysgolion astudiaethau achos eu cynnwys i gyflawni gwaith maes. Dewiswyd ysgolion ar sail amrywiaeth helaeth o ffactorau, gan gynnwys lleoliad daearyddol, pwysoli cynradd / uwchradd, lefel dyfarniad Eco-Sgolion, iaith, maint, a'r nifer o ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Cyfwelwyd cyfanswm o 15 o Gydlynwyr Eco ac ymarferwyr addysg, gydag wyth gweithdy'n cael eu cynnal gyda dysgwyr o'r Eco-Bwyllgorau o fewn yr ysgolion astudiaethau addysg a ddewiswyd.

1.6 Roedd ymchwil uniongyrchol arall yn cynnwys wyth cyfweliad gyda chyfanswm o 16 o randdeiliaid o Lywodraeth Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus, yn ogystal â deg o randdeiliaid ehangach yn cynnwys partneriaid Eco-Sgolion a chynrychiolwyr rhyngwladol. Lluniwyd arolwg ar-lein hefyd a'i ddosbarthu trwy Cadwch Gymru'n Daclus i bob ysgol oedd yn ymwneud â'r rhaglen ledled Cymru, a dderbyniodd gyfradd ymateb gymedrol o 80 o ymatebion – gyda 67 o'r rhain yn y Saesneg a 13 yn y Gymraeg.

## 2. Canfyddiadau allweddol yr adolygiad

### Sail resymegol rhaglen Eco-Sgolion

2.1 Roedd adborth gan randdeiliaid y cyd-drafodwyd â hwy yn ystod yr adolygiad yn dangos sail resymegol y rhaglen mewn nifer o ffyrdd. Bu staff Cadwch Gymru'n daclus a rhanddeiliaid ehangach a fu'n gweithio law yn llaw ag eco-ysgolion yn trafod sawl thema sy'n ymwneud â phwysigrwydd y rhaglen, gan gynnwys:

- Defnyddio addysg fel cyfrwng i helpu mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd;
- Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u llais ar faterion sy'n effeithio arnynt;
- Cefnogi pob un o bedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru[1];
- Helpu ysgolion i gymryd camau ymarferol; a,
- Darparu mecanwaith ar gyfer gwreiddio blaenoriaethau perthnasol Llywodraeth Cymru ym mhrofiad dysgu plant a phobl ifanc. Er enghraifft, megis y cysylltiad rhwng Eco-Sgolion a pholisi Ansawdd Aer, i amddiffyn dysgwyr rhag peryglon i'w hiechyd.

### Gweithredu a rheoli'r rhaglen

*Rheoli a llywodraethu*

2.2 Un thema allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr adolygiad oedd perthynas bosibl rhwng ysgolion yn ennill statws Baner Werdd a'r nifer o staff sy'n gweithredu'r rhaglen yng Nghymru. Roedd y cymorth unigoledig a ddarparwyd i ysgolion a'r cysylltiadau a ddatblygwyd rhwng Swyddogion Eco-sgolion a Chydlynwyr Eco yn rhan ganolog o'r llwyddiant ac o'r gallu i gynnal diddordeb ysgolion drwy'r rhaglen. Yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19), roedd staff Eco-Sgolion yn cydnabod eu bod wedi gallu addasu a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, oherwydd y symud tuag at weithredu'r rhaglen ar-lein a lleihau costau teithio a chynhaliaeth.

2.3 O ran y ffordd orau o gefnogi ysgolion ar ôl mesurau'r pandemig COVID-19, roedd pryderon dealladwy gan Cadwch Gymru'n Daclus ynghylch cadw staff a pharhau i weithredu'r rhaglen ar yr un raddfa a chadw at yr un safon, yn enwedig yn wyneb codiadau cyflog, dychwelyd at ddull cyflwyno heibrid, a heriau fel yr argyfwng costau byw. Un awgrym gan Swyddogion Eco-Sgolion oedd senario yn y dyfodol lle gallai cyllid ychwanegol helpu cyflwyno Swyddog Eco-Sgolion i bob awdurdod lleol yng Nghymru, a allai helpu gwella cysondeb rhwng ysgolion Baner Werdd a'i gilydd, a chynnal dyfarniadau trwy gymorth wedi ei deilwra'n fanylach.

2.4 Mae'r rhaglen wedi bod yn mynd ati fwyfwy i geisio cysylltu Eco-Sgolion ar draws meysydd eraill o bolisi Llywodraeth Cymru i gyflawni canlyniadau traws-adrannol. O safbwynt y pwysigrwydd i Lywodraeth Cymru, mae cyfleoedd am weithio traws-adrannol pellach ar Eco-Sgolion i gyflawni amrywiaeth helaeth o gynlluniau a fframweithiau gweithredu. Er enghraifft, trwy gryfhau cysylltiadau â'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Trafnidiaeth a thimau Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol. Daeth gwersi i'r amlwg o'r gymhariaeth ryngwladol ar sut y manteisir ar y cyfleoedd hyn mewn gwledydd eraill, lle mae sawl adran lywodraeth yn rhedeg eu rhaglenni eu hunain o dan ambarél Eco-Sgolion. Mae cyfle i'r rhaglen annog y ffordd hon o weithio yng Nghymru, er mwyn cynyddu cyllid i'r rhaglen fel cyfanrwydd, a rhoi cymorth pellach i gyrraedd targedau sy'n ymwneud ag uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru.

---

[1] Mae pedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru wedi eu llunio i gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu fel: dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes; cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith; dinasyddion egwyddorol, gwybodus, o Gymru a'r byd; ac unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

*Ennyn diddordeb ysgolion cynradd ac uwchradd*

2.5 Dangosodd yr adolygiad nifer o heriau wrth ennyn diddordeb ysgolion uwchradd yn y rhaglen o gymharu'r rheini ar lefel gynradd. Roedd y rhain yn cynnwys maint ysgolion, lle'r oedd ysgolion uwchradd mwy yn enwedig yn ei chael yn fwy anodd hwyluso gweithredu drwy ysgol gyfan, yn sgil pwysau amser ar staff i allu ymwreiddio gwaith Eco-Sgolion mewn cynllunio gwersi ar draws y cwricwlwm. Roedd ysgolion uwchradd hefyd yn profi blaenoriaethau'n cystadlu ag arholiadau a chanlyniadau, yn enwedig gyda dysgwyr hŷn, a all ei gwneud yn anodd ymrwymo amser i'r rhaglen. Ychwanegwyd at yr heriau hyn mewn achosion lle'r oedd graddau cymysg o gefnogaeth i'r rhaglen ymysg staff o fewn yr ysgol, a oedd yn creu problemau wrth weithredu dull trawsgwricwlaidd ysgol-gyfan. Yn hyn o beth, y teimlad oedd bod angen i'r rhaglen ddatblygu mwy o gymhellion i athrawon ymwreiddio cysylltiadau Eco-Sgolion â gwaith y Cwricwlwm i Gymru, fel nad yw'r rhaglen yn cael ei gweld fel gweithgaredd 'atodol'. Gallai'r rhain fod yn ffurf rhagor o adnoddau ar-lein, neu gyfleoedd i ysgolion rannu'r arferion gorau gyda'i gilydd.

2.6 O ran arallgyfeirio gweithgareddau yn y dyfodol, roedd Swyddogion Eco-Sgolion yn gweld cyfle i gynyddu gweithgarwch gydag ysgolion uwchradd trwy roi mwy o bwyslais ar gaffael sgiliau, datblygiad proffesiynol a chyfleoedd swyddi law yn llaw â blaenoriaethau Eco-Sgolion. Wrth fynd ati fel hyn, y teimlad oedd y byddai cynnwys y rhaglen yn fwy cydnaws â blaenoriaethau Cyfnod Allweddol 5[2] wrth sicrhau cynnydd datblygiadol.

2.7 O gymharu ag ysgolion cynradd, teimlai Swyddogion Eco-Sgolion fod y cwricwlwm yn cynnig mwy o amser i ddysgwyr iau gymryd rhan mewn gweithgareddau Eco-Sgolion, a'i fod yn fwy hyblyg ar gyfer sicrhau dull ysgol-gyfan i gyflwyno gwaith Eco-Sgolion.

*Swyddogion Eco-Sgolion a chymorth a ddarparwyd i ysgolion*

2.8 Roedd ysgolion yn canmol eu perthynas gyda Chydlynwyr Eco a'r cymorth a dderbyniwyd trwy Eco-Sgolion. Un tueddiad y sylwyd arno gan Cadwch Gymru'n Daclus oedd bod y graddau o gymorth roedd ar ysgolion ei angen yn dibynnu ar y cyfnod o amser maent wedi ymwneud â'r rhaglen. Deuai ysgolion yn llai dibynnol ar geisio arweiniad a chymorth allanol dros amser, wrth i weithgareddau ddod yn ail natur iddynt. Yn yr ystyr hwn, roedd staff Cadwch Gymru'n Daclus yn cael eu disgrifio fel **galluogwyr** i ysgolion barhau eu taith Eco-Ysgolion yn fwy annibynnol.

2.9 O safbwynt mathau penodol o gymorth, y teimlad oedd bod yr adnoddau ar-lein sydd ar gael i ysgolion o ansawdd uchel ac yn symbylu gweithgareddau dysgwyr ac athrawon. Canfu ysgolion fod y gweithdai ar-lein a'r digwyddiadau a ddarparwyr gan y rhaglen yn addysgu ac ysbrydoli dysgwyr, ac yn rhoi'r cyfle i rannu gwybodaeth. Y teimlad oedd y gellid cryfhau'r digwyddiadau ymhellach i ysgolion cynradd, trwy eu hymestyn i'r Cyfnod Sylfaen.

2.10 Y teimlad hefyd oedd bod yr hyfforddiant i athrawon a ddarperir ar hyn o bryd drwy'r rhaglen yn cyfoethogi ac yn gwella'r ffordd y caiff y rhaglen ei chyflwyno mewn ysgolion gan Gydlynwyr Eco. Roedd cyflwyno'r sesiynau hyn ar-lein yn fwy effeithlon o ran amser i ysgolion, yn galluogi mwy o bresenoldeb ac yn cyrraedd niferoedd mwy. Yn ogystal â'r mathau presennol o hyfforddiant a ddarparwyd, roedd ychydig o ymatebwyr yn gweld cyfleoedd i hyfforddiant gael ei deilwra ar gyfer ysgolion arbennig lle'r oedd Cydlynwyr Eco yn wynebu heriau wrth weithredu'r dull o gyflwyno'r rhaglen dan arweiniad dysgwyr mewn ffordd ystyrlon. Yn ogystal, awgrymwyd gan bartneriaid ehangach y dylai'r rhaglen ystyried hyfforddi gwirfoddolwyr, sy'n chwarae rhan wrth gynnwys y gymuned ehangach yn y rhaglen, i greu rhwydweithiau o wirfoddolwyr i ysgolion eu defnyddio i liniaru problemau gyda chapasiti a chyfyngiadau amser.

[2] Dysgwyr oedran 16-18

*Partneriaethau*

2.11 Mae'r rhaglen yng Nghymru'n cynnwys amrywiaeth helaeth o bartneriaid, gan ddod â llawer o sectorau at ei gilydd mewn dull integredig i wella ysgolion a'r gymuned ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys y Rhaglen Ysgolion Iach, Plantlife Cymru, Maint Cymru, Caffis Trwsio Cymru, a Dŵr Cymru. Teimlai partneriaid y rhaglen fod gwaith Eco-Sgolion yn berthnasol iawn i'w gweithgarwch, o ran ymwybyddiaeth, addysg, cydweithio a gweithio gydag at nodau a rennir. Dywedwyd yn aml gan sefydliadau partner mai un o effeithiau allweddol y rhaglen oedd y gallu i gydweithio ac elwa ar weithgareddau a chyrhaeddiad Eco-Sgolion.

**Gweithredu'r rhaglen mewn ysgolion**

*Cymhellion dros ymuno ag Eco-Sgolion*

Roedd ysgolion yn crybwyll nifer o gymhellion o ran pam oeddent wedi dewis gweithredu'r rhaglen Eco-Sgolion, a'r rheini'n ymwneud yn bennaf â'r rhesymau canlynol:

- Cydnawsedd ag ethos cyffredinol yr ysgol
- Codi ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol ac amgylcheddol hanfodol
- Bod yn rhan o symudiad amgylcheddol byd-eang
- Ymwneud â rhaglen a achredwyd yn rhyngwladol, sy'n rhoi statws swyddogol i Eco-Weithredu gan yr ysgolion.

*Pynciau a gweithgareddau a gyflawnwyd*

2.12 Wrth drafod gydag ysgolion datgelwyd amrywiaeth helaeth o weithareddau creadigol yn cael eu cyflawni. Roedd y rhain yn amrywio o ddigwyddiadau codi sbwriel yn y gymuned leol, plannu coed yn nhir yr ysgol, cynllunio llwybrau coedwigoedd, cysylltu â byd natur trwy waith cadwraeth yn yr ysgol, lleihau gwastraff plastig, cynnal diwrnodau cyfnewid gwisgoedd ysgol a llawer mwy. Adborth cyffredin gan ysgolion y trafodwyd â hwy oedd bod gweithgareddau o dan arweiniad dysgwyr yn bennaf, gan olygu bod llawer o'r syniadau a'r mentrau yn dod yn uniongyrchol o'r Eco-Bwyllgor ei hun.

2.13 Allan o naw pwnc Eco-Sgolion, sbwriel a gafodd ei osod ar y brig ymysg ysgolion, o ran lle'r oeddent wedi gallu gweithredu'r rhaglen fwyaf llwyddiannus. Mewn ysgolion cynradd, y teimlad oedd bod hyn oherwydd mai sbwriel yw'r pwnc hawsaf i ddysgwyr iau ei drin, lle gellir gweld yr effaith ar unwaith, o gymharu â phynciau eraill lle mae cysyniadau yn fwy haniaethol i'w deall. O gymharu, Trafndiaeth, Ynni a Dŵr a gafodd eu rhoi ymysg y pynciau mwy anodd roedd ysgolion yn gallu eu cyflwyno. Roedd hyn oherwydd amrywiaeth o ffactorau cyd-destunol gan gynnwys pryderon am ddiogelwch yn ymwneud â gweithgareddau trafnidiaeth a bod systemau ynni a dŵr yn cael eu rheoli gan gwmnïau allanol, a oedd yn cyfyngu ar y mathau o newidiadau roedd ysgolion yn gallu eu gwneud.

*Cysondeb â'r Cwricwlwm newydd i Gymru*

2.14 Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad yw'r pwysigrwydd i Eco-Sgolion fod yn gyson â'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'i fod yn cefnogi'r gwaith o'i gyflwyno. Roedd consensws ymysg ygolion fod cysondeb naturiol rhwng y ffordd y caiff y rhaglen ei harwain gan ddisgyblion a'r rhyddid mae'r cwricwlwm newydd yn ei gynnig wrth ganiatáu dysgwyr i lywio eu profiad dysgu a'r themâu a'r materion yr ymdrinir â hwy.

2.15 Dywedodd llawer o Gydlynwyr Eco fod syniadau ar sut i gysylltu eu gwaith Eco-Sgolion â phynciau yn dod trwy drafodaethau gyda staff addysgu eraill mewn gwahanol adrannau ac wrth gynllunio gwersi. Roedd hyn yn galluogi ysgolion astudiaethau achos i lenwi bylchau a chreu cysylltiadau

rhwng pynciau Eco-Sgolion a meysydd dysgu a phrofiad, gan alluogi dysgwyr i gaffael gwybodaeth thrwy enghreifftiau byd go-iawn. Roedd y pynciau'r oedd ysgolion yn gallu creu cysylltiadau rhwng y cwricwlwm ac Eco-Sgolion yn amrywio rhwng ysgolion a'i gilydd, ond roeddent yn cynnwys enghreifftiau ar draws y Dyneiddiaethau, Gwyddoniaeth, Iechyd a Llesiant, Mathemateg a Llythrennedd.

*Proses asesu ysgolion*

2.16 Roedd y system Baner Werdd, a ddefnyddir gan y rhaglen i achredu dyfarniadau, yn cael ei gweld fel cyfle am dwf a datblygiad pellach ysgolion yn y rhaglen. Roedd Cydlynwyr Eco yn nodi nifer o gyfleoedd i symleiddio'r broses ddyfarnu. Roedd awgrymiadau'n cynnwys cynnig hyblygrwydd i ysgolion adrodd mewn gwahanol ffyrdd i'r ffurflen ar-lein bresennol, a chaniatáu i wahanol fathau o ddata gael ei gasglu a'i adrodd mewn asesiadau, lle'r oedd ysgolion yn ei chael hi'n anodd diffinio canlyniadau 'meddalach' dysgwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen.

2.17 Roedd ysgolion platinwm yn profi heriau o ran y gallu i gynnal gweithgareddau i adnewyddu eu statws bob blwyddyn, ac yn awgrymu y byddai eu cynnydd drwy'r rhaglen yn elwa o ymestyn y cyfnod o amser rhwng asesiadau a'r cyfle i ymgeisio am lefelau ychwanegol o ddyfarniad y tu hwnt i blatinwm er mwyn cynnal momentwm ac ymrwymiad yn y rhaglen.

*Rhwystrau a heriau i ysgolion*

2.18 Roedd ysgolion yn wynebu nifer o rwystrau a oedd yn effeithio ar eu gallu i weithredu'r rhaglen. Un o'r heriau allweddol a oedd yn wynebu llawer o Eco-Bwyllgorau yw canfod ffyrdd o ariannu eu hoffer a gwaith Eco-Sgolion. Y teimlad oedd y gellid rhwyddhau'r heriau hyn trwy gymorth gan Eco-Sgolion ar ddangos ffyrdd y gall ysgolion ariannu eu Eco-Weithredu. Yn y cyswllt hwn, byddai ysgolion yn elwa o astudiaethau achos ar sut mae gwahanol ysgolion a lleoliadau wedi ariannu eu Eco-Weithredu, neu trwy fapio gwahanol lwybrau y gall ysgolion ddewis ohonynt.

2.19 Roedd rhwystrau eraill i ysgolion yn cynnwys Covid-19, a greodd effeithiau canlyniadol ar raddfa'r gweithgareddau, a'r mathau o weithgareddau, roedd Eco-Bwyllgorau yn gallu eu cyflawni. Roedd diffyg lle ffisegol hefyd yn broblem i rai ysgolion, lle mae gan leoliadau trefol lai o le ar gael ar gyfer dysgu awyr agored os nad oes ganddynt dir glas neu dir coedwig gerllaw iddynt. Yn ogystal, canfu ysgolion heriau o ran anallui i gyflawni rhai o brosiectau mwy Eco-Sgolion lle'r oedd adnoddau ysgol yn gyfyngedig a/neu'n cael ei ddefnyddio eisoes ar gyfer Eco-Weithredu arall. Yn yr achosion hyn, roedd ar ysgolion eisiau mwy o gyfleoedd i weithio mewn clystyrau gydag ysgolion eraill yn eu hardal leol i gyflawni canlyniadau mwy trwy weithio ar y cyd.

**Cymhariaeth ryngwladol**

2.20 Mae elfen ryngwladol y rhaglen yn cyflwyno sawl haen o gyd-destun defnyddiol a dysg y gall ysgolion ei gymhwyso. Roedd teimlad fod y cysylltiad â rhwydwaith byd-eang o Eco-Ysgolion yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus, o Gymru a'r byd, yn gyson â'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

2.21 Roedd y gymhariaeth ryngwladol yn rhoi golwg ddefnyddiol ar fodelau gweithredu posibl i'r dyfodol a chyd-destun ehangach defnyddiol i ystyried effeithiolrwydd rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ystyried graddfa canlyniadau a gweithgarwch cyffredinol gydag ysgolion uwchradd, gan fod gwledydd eraill yn canolbwyntio ar ddysgwyr uwchradd yn arwain ar gydgysylltu'r rhaglen ac adrodd arni. Fel Cymru, nododd gwledydd eraill fod gwahaniaethau rhwng lleoliadau ysgol yn effeithio ar ymgysylltiad â'r rhaglen gan gynnwys lleoliad a mynediad i fannau agored. Gall ateb posibl ar gyfer helpu ennyn mwy o ddiddordeb gydag ysgolion uwchradd ymwneud â dyfeisio system gymorth raddedig ar sail nodweddion yr ysgol.

2.22 Yn ogystal, roedd cymharu â gweithredu'r rhaglen mewn gwledydd eraill yn dangos y gallai fod yn ddefnyddiol ystyried gwahodd ffrydiau ariannu gan fusnesau preifat i gefnogi'r rhaglen yng

Nghymru. Er enghraifft, busnesau sydd ag ardystiad B Corp, neu aelodau o ymgyrchoedd amgylcheddol a all fod â diddordeb mewn cefnogi'r rhaglen yn ariannol.

**Canlyniadau ac Effeithiau Eco-Sgolion**

2.23 Mae adborth a dderbyniwyd gan ysgolion y trafodwyd â hwy yn dangos rhaglen sydd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r mwyafrif o ysgolion sydd wedi cymryd rhan. Mae tystiolaeth o'r adolygiad yn dangos buddion i ddysgwyr, gyda'r rhaglen yn ymddangos ei bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd o ran ysbrydoli a grymuso dysgwyr, ennyn eu diddordeb i ddysgu am yr amgylchedd, a darparu sgililau newydd ar sut i fynd i'r afael â materion newid hinsawdd. Thema gref a ymddangosodd yn yr adolygiad hwn oedd effaith gronnol dysgwyr yn annog newid ymddygiad cadarnhaol gyda chyfoedion, cymdogion a rhieni, ar draws amrywiaeth helaeth o bynciau amgylcheddol.

2.24 Ymddengys fod y rhaglen wedi cyfrannu at y canlyniadau a'r effeithiau a fwriadwyd o ran gwella'r amgylchedd lleol o ganlyniad i Eco-Sgolion. Yn ogystal, cyflawnodd ysgolion amrywiaeth o ddulliau i gynnwys cymuned ehangach yr ysgol yn eu gwaith Eco-Sgolion, gan gynnwys trwy godi sbwriel, gweithio gyda thyfwyr lleol a grwpiau rhandiroedd, a gweithio gyda banciau bwyd i ddatblygu ceyrydd bwyd. Er bod rhai canlyniadau wedi dod i'r amlwg yma, dangosydd yr arolwg fod rhai ysgolion yn teimlo iddynt gael llai o lwyddiant wrth gynnwys rhieni ac aelodau o'r gymuned ehangach mewn sgyrsiau ynghylch newid hinsawdd. O'r herwydd, mae cyfle i'r rhaglen roi pwyslais ychwanegol ar rannu'r arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd er mwyn ennyn diddordeb ehangach yn fwy llwyddiannus.

2.25 Er roedd dadansoddiad o'r cyfraniad yn awgrymu y gallai rhai ysgolion fod wedi gallu cyflawni gweithgareddau tebyg pe na bai'r rhaglen Eco-Sgolion yn bod, mae'n dangos bod gwerth y rhaglen wedi dod o raddfa'r gweithgareddau mae'n annog ysgolion i ymwneud â hwy. Oherwydd natur Eco-Sgolion, mae llawer o'i effeithiau yn anodd eu mesur a'u asesu. Mae rhai dewisiadau ar gael er hynny, a byddai'n golygu'r angen i arolygu dysgwr ar ysbeidiau rheolaidd, gan ddychwelyd at ddysgwyr a samplwyd ar ôl iddynt gymryd rhan er mwyn cadarnhau'r ychwanegodd neu'r gwahaniaeth a gyflawnwyd. Byddai rhaglen gyfyngedig o fonitro fel hyn yn rhoi data mwy pendant i Eco-Sgolion ar ei effeithiau.

## 3. Argymhellion

3.1 Ar sail canfyddiadau'r adolygiad, caiff amryw o argymhellion ar gyfer rhaglen Eco-Sgolion eu cyflwyno isod.

*Gweithredu a rheoli*

- Dylai'r rhaglen ystyried ceisio cyllid ychwanegol i liniaru'r costau uwch o symud oddi wrth gyflwyno rhithiol yn unig ac o'r argyfwng costau byw, er mwyn galluogi twf cynaliadwy i'r rhaglen.
- Dylai'r rhaglen ystyried pa fuddsoddiad sector cyhoeddus y gellid ei gaffael trwy annog adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru i redeg rhaglenni o dan amberél Eco-Sgolion. Gyda chefnogaeth y Tir, Natur a Choedwigaeth, dylai'r rhaglen geisio cryfhau cysylltiadau â'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn Llywodraeth Cymru i helpu cyflawni hyn. Trwy fabwysiadu'r ffordd hon o weithio, gallai'r rhaglen gynnig mwy o gyfleoedd i ddysgu ar y cyd a helpu cyflawni rhagor o ganlyniadau trawslywodraethol.
- Dylai Eco-Sgolion ystyried dewisiadau hefyd ar gyfer sicrhau cyllid ychwanegol trwy gydweithio â phartneriaid sector preifat sydd â diddordeb mewn cefnogi'r rhaglen yn ariannol.
- Canfuwyd mai un o'r ffyrdd mwyaf cyffredin y daeth ysgolion i wybod am eu rhaglen Eco-Sgolion oedd trwy gymryd rhan gyda'u hawdurdod lleol. O'r herwydd, dylai'r rhaglen ystyried arbrofi gyda chyfleoedd pellach am fwy o rwydweithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol, i

helpu hyrwyddo buddion y rhaglen ac ennyn diddordeb ysgolion newydd. Gallai hyn gynnwys gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cyngor Partneriaeth Cymru.

*Hyfforddiant*

3.2 O ran hyfforddiant, bu ysgolion yr astudiaethau achos ac ymatebwyr i'r arolwg yn trafod amryw o welliannau posibl i'r deunyddiau presennol a ddarperir gan Eco-Sgolion, gan gynnwys:

- Cyflwyno hyfforddiant i athrawon gan ddefnyddio dull heibrid ar-lein ac wyneb yn wyneb, i ganiatáu cymaint â phosibl o athrawon i'w ddilyn.
- Law yn llaw â darparu hyfforddiant, sicrhau bod sesiynau'n cael eu recordio i athrawon nad ydynt yn gallu bod yn bresennol, a'u huwchlwytho i Hwb, fel y gall unigolion ddal i fyny yn eu hamser eu hunain ac fel y gellir lledaenu'n ehangach i ysgolion.
- Ystyried datblygu adnoddau ar-lein a deunyddiau hyfforddi sy'n canolbwyntio'n benodol ar sut y gall ysgolion arbennig addasu gweithgareddau Eco-Sgolion ar gyfer anghenion eu dysgwyr. Wrth benderfynu ar eu cynnwys, dylai Cadwch Gymru'n Daclus gyd-drafod ymhellach gydag ysgolion arbennig er mwyn deall pa gymorth penodol mae arnynt ei angen ar gyfer y rhaglen.
- I helpu goresgyn anawsterau o ran capasiti mewn rhai ysgolion, dylai'r rhaglen archwilio'r posibilrwydd o ehangu'r hyfforddiant presennol i athrawon i wirfoddolwyr hefyd, fel modd o greu rhwydweithiau ychwanegol o adnoddau dynol ar gyfer gwaith Eco-Sgolion mewn ysgolion. Gellid archwilio'r dewisiadau hyn trwy gyd-drafod â sefydliadau fel Arolygiaeth Gofal Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

*Adnoddau Ar-lein*

3.3 Bu ysgolion yn amlinellu amryw o adnoddau a deunyddiau ar-lein ychwanegol yr hoffent eu gweld gan y rhaglen, gan gynnwys:

- Teilwra cynnwys sesiynau ar-lein ar gyfer ysgolion cynradd, fel y gellir defnyddio deunyddiau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- Archwilio dewisiadau ar gyfer cryfhau'r adnoddau presennol i ysgolion ar y Cwricwlwm i Gymru, trwy gryfhau'r cysylltiadau â'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, trwy sefydlu sesiynau rhannu gwybodaeth ymysg grwpiau o ysgolion i rannu'r arferion gorau ar sut mae ysgolion eraill yn integreiddio Eco-Sgolion ar draws y cwricwlwm.
- Archwilio dewisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ar-lein ychwanegol i ysgolion ar wahanol ffyrdd y gallant ariannu gweithgarwch Eco-Sgolion.
- Argymhellir rhoi pwyslais ychwanegol ar rannu'r arferion gorau a gwersi a ddysgwyd ynghylch ffyrdd o ymwneud â chymuned ehangach yr ysgol, a bod cyngor ychwanegol yn cael ei roi i ysgolion i annog ymrywmiad ehangach mwy llwyddiannus. Dylid adnabod y rhwystrau sy'n wynebu ysgolion rhag ymwneud â chymuned ehangach yr ysgol, gyda chamau a gymerir i fynd i'r afael â hyn yn cael eu rhannu fel yr arferion gorau.
- Dylai'r rhaglen ystyried pa gymorth ychwanegol y gallai fod ar ysgolion ei angen i helpu cyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â phynciau llai llwyddiannus Eco-Sgolion megis Dŵr, Dinasyddiaeth Fyd-eang ac Ynni.

*Ymwneud ag ysgolion uwchradd*

3.4 Cynigir amryw o argymhellion penodol sy'n ymdrin ag ymwneud yn benodol ag ysgolion uwchradd:

- Yn wyneb yr heriau a wynebir ar y cyd o gynnal cysylltiadau ag ysgolion uwchradd – gallai system raddedig o gymorth helpu sicrhau chwarae teg a chyrraedd ysgolion sydd dan

anfantais. Gellid cyflwyno strategaeth gymorth, ar sail nodweddion a meini prawf ysgolion, er mwyn sicrhau graddau uwch o gyfathrebu penodol gydag ysgolion sydd dan anfantais – er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan.

- Ymgynghori ag ysgolion uwchradd i ddatblygu mwy o adnoddau parod ar wneud Eco-Sgolion yn rhan amlycach o'r Cwricwlwm newydd i Gymru.
- Mae cyfle i ymgynghori gydag ysgolion uwchradd i ddatblygu adnodd i helpu dysgwyr i ymwneud â swyddi gwyrdd neu gyfleoedd gwirfoddoli gwyrdd fel rhan o Fagloriaeth Cymru / neu profiad gwaith gwirfoddol a chanllawiau Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Seiliedig ar Fyd Gwaith.

*Cymorth ehangach i ysgolion*

3.5 Wrth ymdrin yn benodol â chymorth ehangach y gallai'r rhaglen ystyried ei gynnig i ysgolion, argymhellir:

- Rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu cyfleoedd am fwy o gydweithio rhwng ysgolion a'i gilydd, i ddatblygu prosiectau a gweithgaredd clwstwr a fydd yn cyflawni canlyniadau ar raddfa fwy gan ddefnyddio llai o adnoddau. Er enghraifft, prosiectau ynni lleol ar y cyd, gan rannu offer gydag ysgolion eraill, neu weithgareddau ledled sir.

- Ystyried pa gymorth ychwanegol y gallai fod ar ysgolion ei angen i helpu cyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â phynciau llai llwyddiannus Eco-Sgolion megis Dŵr, Dinasyddiaeth Fyd-eang ac Ynni. Mae cyfle ar lefel fwy strategol i adnabod lle gall partneriaethau sy'n bod eisoes gefnogi ac ysbrydoli ysgolion i gyflawni prosiectau y gellir eu gwneud yn ymarferol ac annog cydweithio rhwng ysgolion a'i gilydd ar feysydd mwy anodd eu cyflawni.

- Ystyried chwilio am gyfleoedd i gryfhau cysylltiadau â pholisi economi gylchol Llywodraeth Cymru trwy fynd ati'n fwriadol i chwilio am bartneriaid posibl a gweithgareddau ehangach yn y maes hwn, i'w gyflwyno fel maes o ddiddordeb i ysgolion ledled Cymru.

*Proses asesu a dyfarnu*

3.6 Arweiniodd yr adolygiad at nifer o argymhellion ar gyfer gwella prosesau asesu a dyfarnu Eco-Sgolion, gan gynnwys:

- Cyfleoedd i symleiddio'r ffurflen ar-lein a ddefnyddir gan ysgolion ar hyn o bryd ar gyfer asesiadau ar-lein, trwy ychwanegu hyblygrwydd i ysgolion adrodd tystiolaeth mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

- Argymhellir rhoi pwyslais ychwanegol ar archwilio'r ffyrdd gorau y gall ysgolion weld canlyniadau meddalach dysgwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen, er mwyn casglu a dangos effaith.

- Ystyried dewisiadau ar gyfer ymestyn y bwlch rhwng cyfnodau asesu ysgolion platinwm, i roi mwy o amser i ysgolion gyflawni gwaith newydd Eco-Sgolion a datblygu dyfarniad y tu hwnt i lefel platinwm.

- Ystyried adolygu'r strwythur asesu fel y gall dysgwyr ysgolion uwchradd (fel arweinwyr ifanc) gymryd cyfrifoldeb am gydgysylltu'r rhaglen ac adrodd ar gynnydd o fewn eu hysgolion. Gallai hyn leihau'r canfyddiad o'r baich trymach sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yng Nghyfnod Allweddol 3/4.

3.7 O ran gwerthuso yn y dyfodol, dylai Eco-Sgolion ystyried cyflawni adolygiad penodol o weithgareddau amgylcheddol ysgol wrth ymuno â'r rhaglen, i helpu creu gwell darlun o'r ychwanegedd mae Eco-Sgolion yn ei gyflawni yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan ynddo. Gallai athrawon mewn sampl dethol o ysgolion, neu Gydlynwyr Eco, gymryd rhan yn yr ymarferiad hwn

trwy lenwi holiaduron cyfnodol gyda'u dysgwyr i ddarganfod y cynnydd a wnaed ar sail amrywiol ffactorau. Gall y dull hwn hefyd gynnwys cyfuniad o fesurau meintiol ac ansoddol, gan amlygu canlyniadau "meddalach" a fyddai'n cael eu colli fel arall yn asesiadau Baner Werdd Eco-Sgolion, a rhai yr hoffai ysgolion adrodd arnynt. Byddai data o'r fath yn galluogi datblygu gwell darlun o effaith y rhaglen ar raddfa'r gweithgareddau a gyflawnir o fewn ysgol o ganlyniad i gymryd rhan gydag Eco-Sgolion. Byddai monitro'r data hwn a gwneud cymariaethau â'r llinell sylfaen hon yn helpu Eco-Sgolion i adolygu ei effaith.

Aw: Megan Byrne, Hannah Sterritt, Kerry Kilbride, Jessica Mann, Nick Morgan, Susannah Lynn, Carly Wise, Miller Research.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Byrne, M; Sterritt H; Kilbride, K; Mann, J; Morgan, N; Lynn, S; Wise, C. (2023). Adolygiad o Raglen Addysg Amgylcheddol Eco-Sgolion yng Nghymru (2018-2022). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 56/2023
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-eco-sgolion-yng-nghymru-adolygiad-ebrill-2018-i-ionawr-2022

Barn yr ymchwilwyr yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Aimee Marks
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-954-8